# Y DEG CAM HIL-LADDIAD

HOLOCAUST MEMORIAL DAY TRUST

CAM UN

## DOSBARTHU

Ni chaiff y gwahaniaethau rhwng pobl eu parchu. Ceir rhaniad rhwng ‘ni’ a ‘nhw’, sy’n cael ei weithredu drwy stereoteipiau, neu drwy allgáu pobl y canfyddir eu bod yn wahanol.

CAM DAU

## SYMBOLEIDDIO

Amlygiad gweledol o gasineb. Roedd Iddewon a oedd yn byw o dan reolaeth y Natsïaid yn Ewrop yn gorfod gwisgo Seren Dafydd felen. Yng Nghambodia roedd y Khmer Rouge yn gorfodi pobl o’r Parth Dwyreiniol i wisgo sgarffiau glas. O 1991, yng ngogledd-orllewin Bosnia, roedd pob dinesydd nad oedd yn Serbiad yn gorfod gwisgo rhwymynnau braich gwyn.



CAM TRI


## GWAHANIAETHU

Mae’r grŵp cryfaf hwn yn gwadu hawliau sifil neu hyd yn oed ddinasyddiaeth i grwpiau a nodwyd. Gwnaeth Cyfreithiau Nuremberg yn 1935 amddifadu Iddewon o’u dinasyddiaeth Almaenaidd, ei gwneud yn anghyfreithlon iddynt wneud llawer o swyddi a gwrthod gadael iddynt briodi Almaenwyr nad oeddent yn Iddewon.

CAM PEDWAR

## DAD-DDYNEIDDIO

Caiff y rhai y canfyddir eu bod yn ‘wahanol’ eu trin heb unrhyw hawliau dynol nac urddas personol. Yn ystod yr Hil-laddiad yn Rwanda, cyfeiriwyd at Tutsis fel ‘chwilod duon’; cyfeiriodd y Natsïaid at Iddewon fel ‘fermin’.



CAM PUMP

## TREFNU

Caiff hil-laddiadau eu cynllunio bob amser. Mae cyfundrefnau casineb yn aml yn hyfforddi’r rhai sy’n mynd ymlaen i ddinistrio pobl. Mae Llywodraeth Swdan yn cefnogi ac yn rhoi arfau i’r Janjaweed (milwyr Arabaidd) yn Darfur i gyflawni trais ac i ladd.



CAM CHWECH

## POLAREIDDIO

Mae propaganda yn dechrau cael ei ledaenu gan grwpiau casineb. Defnyddiodd y Natsïaid y papur newydd o’r enw Der Stürmer i ledaenu ac annog negeseuon casineb am Iddewon.




CAM SAITH

## PARATOI

Mae cyflawnwyr yn cynllunio’r hil-laddiad. Maent yn aml yn defnyddio geiriau teg fel yr ymadrodd Natsïaidd ‘Yr Ateb Olaf’ i guddio eu bwriadau. Caiff achosion o hil-laddiad eu cuddio fel hunanamddiffyniad os oes brwydr arfog yn mynd rhagddo neu ryfel cartref, fel y bu yn Bosnia.



CAM WYTH

## ERLID

Caiff dioddefwyr eu hadnabod oherwydd eu hethnigrwydd neu grefydd a chaiff rhestrau marwolaeth eu paratoi. Weithiau caiff pobl eu rhannu a’u rhoi mewn ghettos, eu halltudio neu eu llwgu ac yn aml caiff eiddo ei ddifeddiannu. Mae lladdfeydd hil-laddol yn dechrau.



CAM NAW

## DIFODI

Mae’r grŵp casineb yn llofruddio’r dioddefwyr y maent wedi eu hadnabod mewn ymgyrch fwriadol a systematig o drais. Mae miliynau o fywydau wedi cael eu dinistrio neu eu newid y tu hwnt i bob adnabyddiaeth o ganlyniad i hil-laddiad.

CAM DEG

## GWADU

Mae’r cyflawnwyr neu genedlaethau diweddarach yn gwadu bodolaeth unrhyw drosedd. Caiff tystiolaeth ei dinistrio a thystion eu bygwth. Bu cynnydd mewn achosion ar-lein o wadu’r Holocost dros y blynyddoedd diwethaf.



Nid yw hil-laddiad byth yn digwydd yn anfwriadol. Ceir cyfres o amgylchiadau bob amser sy’n digwydd neu sy’n cael eu creu i feithrin yr hinsawdd y gall hil-laddiad ddigwydd ynddi.

**Gall y camau hyn ddigwydd ar yr un pryd neu mewn trefn wahanol.**

Fersiwn Cymraeg gan SchoolBeat.org

Yn seiliedig ar ymchwil gan Dr Gregory H Stanton: genocidewatch.com